Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ebril 20fed 2016
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Rhian Hughes (RH), Alwena Roberts ac Alwyn Rowlands

2.Ymddiheuriadau - Cyng.Mark Williams

3. Datgan Ddiddordeb
RH ar drafodaeth Hen Ysgol Llanddona
MR ac AR ar drafodaeth Gwelfryn

4.Cofnodion
Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23ain o Fawrth fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. R Hughes.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion
5.1 **Cerrig ger Llain Gron** - Clerc yn disgwyl ymateb gan Adran Wastraff ac anfon llythyr i berchennog er mwyn cael symud y cerrig.
5.2 **Baw Cŵn** - RH wedi derbyn cwyn bod baw cŵn yn ofnadwy lawr ardal y traeth. MW - awgrymu bod y sefyllfa yn waeth yn ystod y penwythnosau. Adrodd y sefyllfa i'r Warden Cŵn.
5.3 **Llwybr Tai Bach -** edrych bod perchennog Cherry Tree Cottage yn barod i gau'r llwybr.
5.4 **Eisteddfod Genedlaethol Môn** (01/16) – A E Jones wedi cytuno i fod yn berson cyswllt i'r ardal.
5.5 **Llwybr Arfordirol** (2/16)- rydym nawr yn deall bod ffermwyr lleol yn fodlon ar gynllun yma.
5.6 **Fynwent Newydd** – Clerc i gael newyddion diweddaraf.
5.7 **Tyllau lonydd lleol** - yn ddrwg wrth Fferm Cefn a rhwng Bryngwyn a lôn Trewiaid. Hefyd mae'r glaswellt yng nghanol y ffordd gar Cariad yn dal o dan y ceir.
5.8 **Sbwriel** - ger y sgip wedi ei glirio.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd
- AR - Sipsiwn a Theithwyr, penderfyniad ar y safleoedd yn cael ei ohirio oherwydd bod y Cyngor Sir yn adolygu'r adborth a dderbyniwyd a hefyd yr etholiad ar 5ed o Fai.
- AR - Cyngor Sir yn gwahodd cynigion ar gyfer y gwaith reoli'r Llys a Carchar Biwmares. Rhywfaint o ddiddordeb lleol wedi cael ei ddangos.
- AR – yn diolch am y rhodd blynyddol i Canolfan Hamdden
- AR – Cyngor Sir mewn "purdah" tan ar ôl yr etholiad
- AR - cwestiynau wedi cael ei godi os bydd rhaid talu am barcio ym maes parcio St Tysilio ar gerbydau mawr sy'n parcio yna dros 24 awr.
- AR - erbyn cyfarfod nesaf o'r Gynghrair Seiriol 28/04, cysidro enwau gwirfoddolwyr i ddysgu dreifio'r bws mini

7. Ceisiadau Cynllunio
Er Gwybodaeth
- 22C38D Cais llawn ar gyfer codi modurdy ynghyd a chreu mynedfa newydd yn Cherry Tree Cottage, Llanddona - Nid rydym yn cytuno gyda'r darlun, lle mae'n ymddangos bod y ffens yn nhu hwnt i gwrtil yn eiddo, lle maent yn hawlio darn o dir comin lle mae peipen dwr yn bodoli. Edrych fel bydd angen hawddfraint i groesi'r tir comin.

8. Hen Ysgol Llanddona
Penderfynwyd yn dilyn y trefniant ffioedd a godir ar Gynghorau Tref a Cymuned, i dalu ffi cais cynllunio Hen Ysgol.
RH - wedi gweld penseiri wythnos yma, angen anfon cais loteri i mewn erbyn 25/05/16.

9. Tir Comin
9.1 Gwelfryn (12/15) - cyfreithiwr y prynwr nawr yn gofyn am hawddfraint ychwanegol sy'n cynnwys yr holl ardal rhwng yr eiddo a'r briffordd. Penderfynwyd nid ydi'r cais yn ddigon manwl, ac am ba reswm bod angen hawddfraint ychwanegol
9.2 RH - adroddwyd bod cais "Creu eich lle" wedi ei gyflwyno gan ddisgwyl penderfyniad 1/06/16. MR wedi cael hyd i ffynhonnell arian arall.

9.3 Hen Ysgol (02/16) - Yn dilyn ail-llythyr gan swyddfa gofrestru tir yn gofyn am wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â thir comin Yr Ysgol, Clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am farn gyfreithiol. Nid rydym wedi derbyn unrhyw gyswllt pellach gan y Cyngor Sir.
9.4 Glydwr - gwaith ychwanegol wedi ei wneud ar fynedfa i'r plot heb ganiatâd a difrod i'r tir comin gerllaw. Clerc i gysylltu ar berchennog.

10.<u>Cyfrifon</u>

Gwariant

- I gymeradwyo Cyflog y Clerc, derbyn a thalu.
- Cais cynllunio Hen Ysgol, derbyn a thalu
- Pwyllgor Neuadd Llanddona - £960

Incwm

- Grant Gynghrair Seiriol - £960

11.<u>Gohebiaeth</u>

- e-bost DH, iaith Cymraeg
- Llythyr – Cofrestrfa Tir

12. <u>UFA:</u>

12.1 DP - wedi derbyn cwyn bod perchennog Llygaid y Gwynt yn plannu clawdd newydd tu hwnt i'r cwrtil yr eiddo.
12.2 DP - hollt ar allt Tan Rallt bach ger Cae Maes Mawr. Hefyd MR yn adrodd bod yna hollt yn y briffordd rhwng Biwmares a Cadnant.
12.3 Dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd (DH) yn pryderu am dreth y cyngor ar ddefnydd o'r iaith Cymraeg yn ein cofnodion, penderfynwyd ceisio cael cyngor cyn ymateb.
12.4 Cawsom drafodaeth ynglŷn â threth ychwanegol y Cyngor Sir ar dai gwag. MW - angen ailystyried pan mae gwaith yn cael ei wneud ar eiddo. AR i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
12.5 Gwaith wedi ail ddechrau ar allt Coch. Hefyd mae twll mawr wedi ymddangos yn y palmant ger y wal môr yn Llanfaes. Mae cyflwr y palmant yma yn beryglus i ddefnyddwyr.
12.6 Penderfynwyd bod y Clerc yn rhannu penderfyniadau ceisiadau cynllunio gyda'r Cynghorwyr y Ward.
12.7 Pecyn awdit blynyddol 2015/16 wedi cyrraedd, angen ei gwblhau erbyn 30/06/16.
12.8 Derbyniwyd cwyn gan berchennog Capel Peniel, yn pryderu am ddiogelwch y cyhoedd ar hyd y llwybr cyhoeddus 22/029/2 sy'n rhedeg ger y giât at y stablau, bod pobl sy'r marchog ceffylau yn defnyddio'r llwybr fel toriad byr. Llwybr yma i gerddwyr yn unig.

13.<u>Dyddiad cyfarfod nesaf:</u>

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.45 o'r gloch.
Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 18/05/16 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd Dyddiad